



Casgliad y Werin Cymru **People's Collection Wales**

Sut i gyfrannu i wefan
Casgliad y Werin Cymru

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad | 3 |
| – Beth yw pwrpas y canllawiau hyn | |
| – Beth yw Casgliad y Werin Cymru? | |
| – Pam cyfrannu? | |
| Pethau i'w hystyried cyn cyfrannu | 4 |
| Eich cynnwys ar wefan Casgliad y Werin Cymru | 5 |
| Dethol Cynnwys | 8 |
| Cyfrannu i wefan Casgliad y Werin Cymru: Ymarferoldeb | 9 |
| Hawlfraint a gwefan Casgliad y Werin Cymru | 10 |
| – Adrodd am Gamddefnydd | |
| – Trwydded Archif Greadigol | |
| – Cymedroli | |
| Llwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru | 13 |
| – Llwytho trwy'r wefan | |
| – Llwytho swmp | |
| Buddion pellach | 21 |
| Ariannu | 22 |

Cyflwyniad

Beth yw pwrpas y canllawiau hyn?

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio'n gyflwyniad i'r ffyrdd y gallwch gyfrannu i wefan Casgliad y Werin Cymru. Ei bwriad yw cyflwyno ystyriaethau ac egwyddorion allweddol o ran digido a chynnig cyfarwyddyd ar gyfrannu cynnwys i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Y bwriad yw ei fod yn ganllaw sy'n addas ar gyfer pob cyfrannwr posibl: unigolion, ystorfeydd, cymdeithasau a grwpiau cymunedol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol eraill, mae croeso i chi gysylltu ag aelodau staff y prosiect i drafod eich cwestiynau a'ch anghenion penodol chi.

Cysylltwch ar www.casgliadywerincymru.co.uk/contact

Beth yw Casgliad y Werin Cymru?

Mae Casgliad y Werin Cymru yn adnodd rhyngweithiol, ar-lein dwyieithog sy'n dod â chasgliadau digidol y sefydliadau cenedlaethol at ei gilydd ac sydd hefyd yn cynnig lle i'ch cynnwys chi, ac yn caniatáu i chi rannu'ch stori â'r byd.

Pam cyfrannu?

- Mae CyWC yn ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru; mi fydd yn bodoli am amser hir
- Mae rhoi cynnwys ar-lein yn caniatáu mynediad ehangach at eich casgliadau ac mae wedi'i brofi ei fod yn codi niferoedd ymweliadau
- Mae'r holl gynnwys ar CyWC yn cael ei gymedroli felly fe allwch fod yn siŵr y gallwch ymddiried yn yr eitemau a'u bod yn annadleuol
- Fe all y partneriaid craidd gynnig cefnogaeth a chynghor i'ch helpu i gyfrannu
- Fe all CyWC gydweithio â chymunedau lleol ac ennill eu diddordeb a'u hymglymiad mewn casgliadau

Pethau i'w hystyried cyn cyfrannu i wefan Casgliad y Werin Cymru

1. **Hawlfraint** – rhaid i ddeunydd fod yn rhydd o faterion hawliau cyn iddo gael ei gyhoeddi ar-lein;
2. **Rhwyddineb digido** – os ydych yn edrych ar eich casgliadau, ystyriwch pa mor hawdd yw i'w digido yn y lle cyntaf;
3. **Maint y casgliad** – pa mor fawr yw'r casgliad yr hoffech ei ddigido? Efallai byddai'n well dechrau gyda rhywbeth sy'n hawdd ei drin yn y lle cyntaf;
4. **Y math o gynnwys** – a oes ganddo werth addysgol? Neu efallai y caiff ei ddefnyddio mewn arddangosfa neu rywbeth tebyg i goffáu digwyddiad neu ben blwydd. Mae bob amser yn werth ceisio cadw pethau'n berthnasol wrth benderfynu digido casgliadau;
5. **Staffio** – mae adnoddau'n dynn, felly meddyliwch am gael cymorth oddi wrth wirfoddolwyr. Fe all wirfoddolwyr elwa o achrediad a ffurfio ychwanegiad gwerthfawr at eich tîm;
6. **Offer** – prynwch yr offer gorau a allwch ei fforddio fel eich bod yn cael y delweddau digidol o'r ansawdd orau. Os nad yw'r arian gennych, benthycwch oddi wrth eraill o fewn eich adran neu oddi wrth Culturenet Cymru.

Eich cynnwys ar wefan Casgliad y Werin Cymru

Mae nifer o ffyrdd y gellir arddangos cynnwys ar y wefan. Mae gwefan Casgliad y Werin Cymru yn llawn eitemau: delweddau, sain, fideo a thestun, a all yna gael eu trefnu mewn ffyrdd amrywiol i'w defnyddio gan y cyhoedd. Fe all y cyhoedd hefyd ddefnyddio'r eitemau ar y safle a'u hail-drefnu mewn ffyrdd arloesol a diddorol.

Eitemau

Rhain yw sail gwefan Casgliad y Werin Cymru ac fe allent fod yn ddelweddau, sain, fideo ac eitemau testun sy'n ymwneud â hanes a threftadaeth Cymru.

Fformatau derbyniol:

Delweddau: .jpg, .gif, .png

Fideo: .flv, .mp4, .3gp, .avi, .wmv

Sain: .mp3, .wav, .wma

Testun: .txt, .htm, .html

Maint mwyaf ffeil: 64MB (65536KB)

Casgliadau

Gellir trefnu eitemau ar y safle'n gasgliadau gyda themâu cyffredin; digwyddiadau, lleoliadau, pobl, sy'n adrodd stori ac yn cynnig mwy o gyd-destun i'r defnyddiwr. Dyma'r ffordd hawsaf o drefnu cynnwys ar y safle ac mae'n cynnig mynediad cyflym a hawdd at y cynnwys i'r defnyddiwr.

Arddangosfeydd

Er mwyn cynnig sail olygyddol i'r wefan, mae yna erthyglau neu straeon sy'n rhoi'r hanes y tu ôl i'r amrywiaeth o eitemau sydd wedi'u casglu ynghyd ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'r straeon hyn yn rhoi cefndir i'r casgliadau o eitemau ac maent yn nodwedd addysgiadol ac addysgol o'r wefan. Mae straeon wedi'u rhannu'n themâu mewn Arddangosfeydd, i gynnig taith drwy'r wefan i'r defnyddiwr. Os ydych wedi cynnal arddangosfa neu wedi paratoi testun ar gyfer eich casgliadau, fe all y rhain ffurfio sail straeon ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Fe all seilio eitemau o amgylch stori hefyd roi ysbrydoliaeth i chi i benderfynu pa eitemau i'w dewis i'w cyhoeddi.

Fe all arddangosfeydd gael eu hychwanegu gan weinyddwyr y wefan. Os oes syniadau gennyh, cysylltwch â ni ac fe allwn drafod sut allent ymddangos ar y safle.

Llwybrau

Un o elfennau mwyaf arloesol gwefan Casgliad y Werin Cymru yw'r adeiladwr llwybr. Fe all eitemau gael eu plotio'n ddaearyddol drwy ddefnyddio'r mapio ar y safle i dywys pobl ar daith o amgylch eu hardal; a rhoi eitemau o'r casgliadau yn eu cynefin naturiol. Mae cyfranwyr yn cael eu hannog i geo-leoli eitemau wrth iddynt lwytho i'r safle fel y gellir eu defnyddio'n hawdd gyda'r teclyn hwn. Fe allech feddwl am hyn wrth benderfynu beth i'w gyfrannu: a allwch dywys pobl ar daith hanesyddol o'ch cymuned? Gellir cael mynediad at yr holl llwybrau ar-lein neu drwy ddefnyddio apps iPhone ac Android Trails Cymru. Gellir hefyd eu hargraffu neu eu llwytho i lywiwr lloeren, felly byddant ar gael i'ch holl ymwelwyr.

Adeiladwr Stori

Mae cyfuno sain gyda delweddau llonydd yn ffordd effeithiol o arddangos cynnwys, ac mae teclyn Adeiladwr Stori Casgliad y Werin Cymru yn caniatáu i chi wneud hyn yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'r teclyn 'llusgo a gollwng' syml yn caniatáu i chi ddewis eitemau o'ch casgliadau'ch hun, yn ogystal ag unrhyw eitemau a lwythwyd gan eraill i'r wefan, a'u cyfuno gydag unrhyw drac sain neu adroddiad ar y wefan i gyflwyno cynnwys yn atyniadol ac yn effeithiol i eraill. Mae'n ffordd arbennig o effeithiol o gyflwyno hanes llafar.

Addysg

Mae Casgliad y Werin Cymru yn cynnig adnodd unigryw ar gyferdarparwyr addysg yng Nghymru. Fe all athrawon greu adnoddau addysgol a dosbarthiadau ar gyfer eu myfyrwyr drwy ddefnyddio'r cyfoeth o ddeunydd ar gael ar y wefan sy'n cefnogi amrediad o bynciau, yn cynnwys hanes, daearyddiaeth, celf a iaith.

Fe allwch ychwanegu'ch cynnwys eich hun, cyfrannu straeon neu greu'ch casgliadau'ch hun. Er enghraifft, fe fedrwch ddatblygu sgiliau cyfathrebu'ch myfyrwyr drwy ddefnyddio'r Adeiladwr Stori i gyfrannu straeon ac ymchwil, ychwanegu delweddau, sain a phenawdau.

Wrth ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru, fe all myfyrwyr rannu gwybodaeth, cyhoeddi'u canfyddiadau neu ddehongli'r adnoddau sydd ar gael ar y wefan.

Stori Teulu

Fe all achyddion ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru i gofnodi'u hachresi. Mae'r teclyn Stori Teulu yn caniatáu i chi ddechrau adeiladu'ch achres o'r cychwyn, neu fewnfudo un sy'n bodoli yn barod, a chreu casgliadau o ddelweddau ac eitemau sy'n berthnasol i hanes eich teulu. Gellir hefyd ychwanegu bywgraffiadau neu hanesion byr am unigolion i'r wefan. Fe allech lwytho ffotograffau a dogfennau'ch teulu'ch hun, neu ddefnyddio rhai sydd ar y wefan yn barod, er mwyn adrodd hanes eich teulu.

Byddai llwytho cynnwys o gasgliadau hanes lleol yn cynnig adnodd gwerthfawr i ddefnyddwyr wrth iddynt ymchwilio a datblygu'u hachresi. Fe allai hyn fod o ddiddordeb arbennig i ddefnyddwyr tramor sy'n awyddus i ddysgu am eu llinach Gymreig ond na allant gael mynediad at y casgliadau.

Dethol Cynnwys

Efallai na fydd yn bosib llwytho'ch casgliad cyfan ar yr un pryd. Rhaid i bawb flaenoriaethu ac mae nifer o ffyrdd o wneud hyn.

1. Beth sydd allan o hawlfraint? Ymgynghorwch â Modiwl 1 Canllawiau Digidol Culturenet Cymru i'ch helpu i ddarganfod pa eitemau yn eich casgliadau sydd allan o hawlfraint. Fe fydd dechrau gyda'r rhain yn rhoi amser i chi weithio ar glirio gweithiau eraill yn eich casgliad a pharhau i ddigido.

2. Ar gyfer beth gaiff ei ddefnyddio?

a. Addysg – Mae'n aml yn syniad da blaenoriaethu cynnwys bydd â gwerth addysgol. Siaradwch â'ch swyddog addysg lleol i weld a fedrwyd fwydo i mewn i'r Cwricwlwm neu gynnig adnoddau a allai helpu i ddysgu hanes lleol mewn ysgolion.

Mae gan safle Casgliad y Werin Cymru Grŵp Dysgu a allai cynnig cyngor ar ba elfennau o'r cwricwlwm allai cael eu cefnogi orau gan gynnwys.

b. Arddangosfeydd neu gyhoeddiadau – os ydych yn paratoi arddangosfa neu gyhoeddiad, beth am fanteisio ar y cyfle i ddigido casgliad ehangach a'i osod ar-lein?

3. Penblwyddi – fe allai pen blwydd digwyddiad neu unigolyn arwyddocaol fod y rheswm delfrydol i gynhyrchu cynnwys digidol i goffáu'r dyddiad. Fe all Grŵp Cynnwys a Golygyddol Casgliad y Werin Cymru gynnig cyfarwyddyd ynglŷn â dyddiadau penodol o ddiddordeb er mwyn ysbrydoli digido cynnwys.

4. Deunydd poblogaidd – fe all digido gynnig mynediad at gynnwys sy'n boblogaidd e.e. Deunydd sy'n cael ei ddefnyddio i ymchwilio teuluoedd. Mae cynnig cofnodion o'r fath ar-lein yn ehangu'ch gwasanaethau i ddefnyddwyr.

5. Ymarferoldeb digido – a oes gennych chi'r gallu i ddigido'r eitemau? Efallai eu bod yn rhy fawr neu letchwith i'w digido'n hawdd, ac os felly, cysylltwch â ni i weld a allwn ni helpu.

6. Gofod – efallai bod gennych gasgliad eang, rhyfeddol, ond dim digon o le i'w arddangos i gyd. Mae digido'n cynyddu'ch gofod arddangos yn y byd rhithwir.

Cyfrannu i wefan Casgliad y Werin Cymru: Pethau ymarferol

Mae'r adran hon yn cynnig gwybodaeth ynglŷn â digido'ch casgliadau a'u llwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Digido: Sut i ddigido

Mae Casgliad y Werin Cymru yn cynnig hyfforddiant i ystorfeydd a grwpiau cymunedol a hoffai hyfforddiant digido. Mae sesiynau rheolaidd yn seiliedig ar Ganllawiau Digido Culturenet Cymru ar gael am ddim yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gellir cynnig hyfforddiant mewn lleoliadau ar draws Cymru yn ôl y galw.

Er mwyn cefnogi hyfforddiant, mae gan Culturenet Cymru offer ar gael i'w fenthyca am gyfnodau byr i ganolig, sy'n caniatáu cyflawni prosiectau hylaw heb orfod prynu offer.

Cysylltwch â **digido@culturenetcymru.com** am fwy o wybodaeth am sut i drefnu hyfforddiant a / neu fenthyca offer.

Mae'r offer gennych chi yn barod?

Edrychwch ar Ganllawiau Digido Culturenet Cymru am wybodaeth ar yr arfer gorau mewn digido.

Rhai awgrymiadau syml i'w cofio:

- 1.** Sganiwch gyda chydrianiad isaf o **300dpi** er mwyn sicrhau ansawdd gorau'r ddelwedd. Fe fydd cynyddu'r cydraniad ymhellach yn cynyddu maint ffeil y ddelwedd felly byddwch yn ymwybodol am hyn wrth ystyried storio delweddau digidol ac ati.
- 2.** Cadwch eich holl ddelweddau wedi'u sganio yn ffeiliau **TIFF** er mwyn cadw'r holl fanylder o fewn y ddelwedd ddigidol. Cadwch y ddelwedd TIFF Meistr yn eich archif a chynhyrchwch gopiâu at bwrpasau eraill fel arddangos ar-lein. Fe fydd hyn yn sicrhau dargadw delwedd archif o ansawdd uchel.

Mae delweddau TIFF yn ddelweddau cydraniad uchel ac yn anaddas i'w cyhoeddi ar-lein. Dylech felly newid eu maint a chadw'ch delweddau fel ffeiliau JPEG ar gyfer eu llwytho i'r We. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio Photoshop, GIMP neu feddalwedd trin delweddau arall.

- 3.** Sefydlwch system **enwi ffeiliau** a storio effeithlon er mwyn sicrhau bod eich data a'ch delweddau'n adalwadwy. Ymgynghorwch â'r Canllawiau Digido am fwy o wybodaeth.

Hawlfraint a gwefan Casgliad y Werin Cymru

Cyn digido a chyhoeddi unrhyw ddeunydd, rhaid ateb unrhyw faterion hawliau. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â hawlfraint yng Nghannllawiau Digido Culturenet Cymru.

Mae Casgliad y Werin Cymru'n awyddus i sicrhau bod yr holl gynnwys ar y safle'n ddibynadwy ac ar gael i'w ddefnyddio gan unrhyw ddefnyddiwr at bwrpasau anfasnachol.

Gwybodaeth hawlfraint

Crëwr
Davies, W.H.

Perchennog
Newport Community Learning Libraries

Hawlfraint

© Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Casnewydd 1970

Atgynhychwyd drwy garedigrwydd Dysgu Cymunedol a Llyfrgelloedd Casnewydd

Gellir defnyddio'r adnodd hwn o dan amodau a thelerau Archifau Creadigol Trwydded [Link](#)

CLOSE

Gellir arddangos unrhyw hawliau sy'n gysylltiedig ag eitem eu harddangos fel y gwelir uchod. Mae'n bosibl cydnabod nifer o unigolion, sefydliadau neu gyfundrefnau sydd ganddynt hawliau deallusol dros eitem. Er enghraifft:

Crëwr – y person / corff a greodd yr eitem wreiddiol

Perchennog – y person / corff / sefydliad sy'n berchen ar yr eitem ar hyn o bryd neu sydd â'r eitem yn ei feddiant

Cyfrannwr – pwy bynnag a lwythodd yr eitem ar wefan Casgliad y Werin Cymru

Gwybodaeth arall – cydnabod unrhyw un arall a all feddu ar hawliau i'r eitem a chydabyddiaeth y ceisiwyd am ganiatâd i arddangos yr eitem.

Mae Casgliad y Werin Cymru'n gofyn i bob cyfrannwr sicrhau bod manylion yr eitemau maent yn eu llwytho mor gywir â phosibl ac y gwnaed pob ymgais i glirio hawlfraint sy'n ymwneud â'r cynnwys.

Unwaith mae'r eitemau wedi'u llwytho, maent yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymedroli a'u gwirio er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri unrhyw un o 'Reolau Tŷ' y wefan. Rhai cwestiynau allweddol i'w gofyn cyn llwytho unrhyw gynnwys yw:

1. Ydy'r ddelwedd rydych yn bwriadu'i llwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru wedi'i diogelu gan hawlfraint ac a yw o hyd mewn hawlfraint?
2. Pwy dynnodd y ddelwedd ddigidol?
3. Ydy'r bobl sy'n berchen ar hawlfraint y ddelwedd wreiddiol a digidol wedi rhoi caniatâd i chi gyhoeddi'r ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru?
4. Ydych chi a nhw'n cytuno i ymrwymo i amodau'r Drwydded Archif Greadigol?
5. Ydych chi'n gwybod pwy sydd angen cydnabyddiad pan fydd yr eitem yn ymddangos ar y wefan?

Fe fydd cymedroli'n tynnu'ch sylw at unrhyw elfennau efallai eich bod wedi'u hesgeuluso, ac yn amlygu unrhyw beth sydd angen mwy o sylw. Fe fydd y cymedrolwr yn cysylltu â chi ar y cyfeiriad e-bost sy'n gysylltiedig â'r enw defnyddiwr ac yn ceisio datrys y mater. Tra bydd y drafodaeth yn parhau, ni fydd yr eitem i'w weld gan ddefnyddwyr eraill.

Adrodd am Gamddefnydd

Pe bydd eitem wedi'i llwytho ond mae defnyddiwr yn teimlo bod hawlfraint wedi'i dorri, neu fod yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llidus, fe all dynnu sylw'r gweinyddwr ati drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'Adrodd am Gamddefnydd'.

TYNNU SYLW AT GAMDDEFNYDD

Mae 'Adrodd am Gamddefnydd' wedi'i arddangos nesaf at bob eitem ar y wefan ac yn caniatáu i ddefnyddwyr dynnu sylw at unrhyw faterion.

Trwydded Archif Greadigol

Rhaid i bob eitem ar wefan Casgliad y Werin Cymru gael ei thrwyddedu o dan amodau'r Drwydded Archif Greadigol.

Mae'r Drwydded Archif Greadigol yn gynllun trwydded unigol, ranedig ar gyfer defnydd delweddau symudol, sain a delweddau llonydd. Mae'n caniatáu gwyllo, rhannu ac aildefnyddio cynnwys o dan amodau penodol, er enghraifft, gellir defnyddio'r deunydd at bwrsasau anfasnachol yn unig.

Gan ei fod bron iawn yn amhosibl rhwystro defnyddwyr rhag defnyddio cynnwys os ydynt yn benderfynol o wneud, mae trwyddedu wedi cael ei ddatblygu er mwyn

cynnig diogelwch i'r perchennog a gosod allan yr union amodau lle gellir atgynhyrchu adnoddau digidol.

Mae'r Drwydded Archif Greadigol yn gosod pump o gyfyngiadau ar ddefnyddio cynnwys:

1. Dim defnydd masnachol – ni cheir atgynhyrchu eitemau at bwrpasau masnachol
2. 'Share-alike' – gellir defnyddio'r holl gynnwys i greu 'Gweithiau Deilliadol' ond rhaid iddynt gael eu hailddefnyddio o dan amodau'r un drwydded
3. Cydnabod – rhaid rhoi cydnabyddiaeth i'r perchennog gwreiddiol (attribution)
4. Dim cefnogaeth – rhaid i'r cynnwys beidio â chael ei ddefnyddio i gefnogi nac ymgyrchu, nac at bwrpasau difenwol na difriol
5. Y DU yn unig – mae cynnwys yr Archif Greadigol ar gael i ddefnyddwyr y rhynggrwyd i'w ddefnyddio o fewn y DU

Mae cytuno i drwyddedu'ch cynnwys yn golygu y gall gael ei ddefnyddio gan eraill yn effeithiol, yn glir ac yn gyfreithlon.

Cymedroli

Rhaid i bob eitem sy'n cael ei llwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru gael ei chymedroli cyn iddi fedru ymddangos. Wedi i'r broses llwytho gael ei chwblhau, mae'r eitem yn mynd i'r ciw cymedroli ac yn cael ei chymedroli gan aelod o'r tîm CyWC canolog. Tra ei bod yn cael ei chymedroli, fe all yr eitem gael ei gweld a'i defnyddio gan y cyfrannwr: ei rhoi mewn casgliadau, straeon, llwybrau ac ati, ond ni all y cyhoedd ei gweld.

Sut ydym yn cymedroli?

Mae pob eitem yn cael ei gwirio i sicrhau nad yw'n torri Amodau Defnydd a Phreifatrwydd y safle.

I weld yr amodau hyn, ewch i www.casgliadywerincymru.co.uk/Terms

Pan gaiff eitem ei chyflwyno ar gyfer cymedroli, mae gan y Cymedrowr dri dewis:

1. Os yw'r cymedrolwr yn fodlon fod gan y cyfrannwr yr hawl i lwytho'r eitem ac nad yw'n torri unrhyw amodau, mae'r eitem yn cael ei chymeradwyo ac yn ymddangos ar y wefan.
2. Os yw'r cymedrolwr yn ansicr a yw un neu fwy o amodau'r wefan wedi'u torri, yna mae'r eitem yn cael ei dal mewn 'Cell Ddal', ac fe gysylltir â'r cyfrannwr am fwy o wybodaeth. Yna fe all y cyfrannwr wneud newidiadau i'r

eitem neu gadarnhau bod ganddo'r hawl i'w llwytho, ac fe gaiff yr eitem ei chymedroli i ymddangos ar y wefan.

3. Os cred y cymedrolwr fod y cyfrannwr yn amlwg yn torri amodau'r safle, fe fydd yr eitem yn cael ei gwrthod ac fe fydd hysbysiad yn cael ei anfon at y cyfrannwr.

Ystyriwch faterion hawlfraint cyn llwytho cynnwys gan fydd yn hwyluso'r broses gymedroli. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r casgliad yr hoffech ei ddigido a'i lwytho, cysylltwch â ni: digido@culturenetcymru.com

Gwarchod data

Fel pob cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein, rhaid i eitemau sy'n cael eu llwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru barchu preifatrwydd unigolion ac fe fydd pob eitem yn cael ei gwirio o ran hyn yn ystod y broses gymedroli.

Llwytho Cynnwys i wefan Casgliad y Werin Cymru

Er mwyn i'ch cynnwys fod mor ddefnyddiol â phosibl ar-lein, dylid glynu cymaint o wybodaeth â phosibl wrth bob eitem.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am safonau metadata wrth ddigido ym Modiwl 2, Canllawiau Digidio Culturenet Cymru.

Llwytho drwy ddefnyddio'r Wefan

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif
2. Ewch i 'Fy Nghyfrif'
3. Cliciwch ar 'Ychwanegu Eitem' ac fe fydd y ffurflen sy'n dilyn yn ymddangos:

Chwiliwch drwy'ch ffeiliau am yr eitem hoffech llwytho

The screenshot shows the 'anegu' website interface. At the top, there is a navigation bar with 'anegu' on the left and 'CAM 1' on the right. Below this, there are three tabs: 'LLWYTHWCH EICH EITEM', 'MANYLION EITEM', and 'CWBLHAD'. The main content area has a heading 'Ychwanegu'ch eitemau at wefan Casgliad y Werin Cymru fod yn haws'. Below the heading is a paragraph of text. There is a search bar labeled 'Eich eitem' with a 'Browse...' button to its right. Below the search bar, there are two lines of text: 'Cliciwch yma i ddefnyddio'n llwythwr sy'n cynnwys bar cynnydd' and 'Os ydych yn ychwanegu testun yn unig, cliciwch yma i gael mynediad yn syth'. At the bottom right of the screenshot, there is a button labeled 'LLWYTHO EITEM'.

LLWYTHO EITEM

Pan yn hapus gyda'ch dewis, cliciwch **llwytho eitem** i fynd at y cam nesaf

4. Ychwanegu gwybodaeth

Unwaith rydych wedi clicio 'Llwytho eitem' fe fydd y ffenestr sy'n dilyn yn ymddangos. Yma, fe fedrwrch ychwanegu gwybodaeth at yr eitem. Nodwch fod y system yn cymryd y teitl o'ch enw ffeil yn awtomatig, felly fe fydd angen i chi ei newid.

Mae enghraifft o sut ddylid ei lenwi ar **dudalen 17*****

TEITL
NODER:
Fe fydd yn cymryd y teitl o'ch enw ffeil yn awtomatig – bydd angen i chi ei NEWID

DISGRIFIAD
Unrhyw wybodaeth ychwanegol

TAGIAU

Diolch am ychwanegu'ch eitem. Pe hoffech ychwanegu neu olygu gwybodaeth cyn ei gyflwyno ar gyfer cymedroli, gwnewch hynny nawr.

(Cymraeg)

(English) GTJ15865_2

Disgrifiad
(Cymraeg)

B I U

Tagiau
(Cymraeg)

Buttons: - DWYIEITHOG, + DWYIEITHOG, + DWYIEITHOG

5. Gwybodaeth Hawlfraint

Ar yr un dudalen mae angen ychwanegu gwybodaeth yn ymwneud â'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r eitem. Ni all unrhyw eitem gael ei llwytho i'r wefan heb i'r cyfrannwr gytuno â'r Amodau Defnydd yn gyntaf a thrwyddedu'r eitem o dan y Drwydded Archif Greadigol.

Gellir ychwanegu gwybodaeth arall fel a ddangosir isod:

Gwybodaeth hawlfraint

Rwyf yn derbyn [Amodau defnydd a phreifatrwydd](#)

Mae gen i'r hawl i lwytho'r deunydd hwn [Trwydded Archif Greadigol](#)

I have the read the Copyright Guide [Copyright Guide](#)

Pwy grëodd yr eitem hon? Anhystbys


A oes unrhyw beth arall dylwn wybod?
(Cymraeg)

B I U Source

Atgynhyrchwyd trwy garedigrwydd Ystâd John Jones a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

+ DWYIEITHOG

CYFLWYNO EITEM AR GYFER CYMEDROLI



Rhaid cytuno â'r telerau hyn cyn y gellid llwytho'r eitemau

Rhowch gydnabyddiad i ddeiliaid hawliau eraill neu diolchwch am ganiatâd

Pan ydych yn fodlon, cyflwynwch yr Eitem i'w Chymedroli

Unwaith rydych wedi cyflwyno'r eitem i'w Chymedroli, fe allwch ychwanegu gwybodaeth bellach ati yn ystod Cam 3:

CAM 3

LLWYTHWCH EICH EITEM MANYLION EITEM CWBLHAD

Diolch

Diolch am ychwanegu'ch eitem. Mae'ch eitem nawr wedi'i chyflwyno i'w chymedroli. Fe allwch ddefnyddio a gweld yr eitem hon nes i gymedroli digwydd, ond ni all eraill nes iddi gael ei chymeradwyo.

Fe fedrwch nawr

- Gweld yr Eitem hon >
- Golygu ei Theitl, Disgrifiad, Tagiau, Dyddiad >
- Ychwanegu gwybodaeth hawlfraint bellach >
- Categorioidio'r Eitem hon >
- Ychwanegu at ein Mapiau >

Ychwanegwch at ein Mapiau

[Golygu Eitem - Lleoliad](#)

Lleoliad

Chwilio



Geo-leolwch yr eitem i'r lleoliad sydd ganddi fwyaf o gysylltiad â hi drwy ddefnyddio rhyngwyneb mapio syml. Cliciwch ddwywaith i binbwyntio'r lleoliad.

Mae hyn yn arbennig o bwysig pe hoffech ddefnyddio eitemau i greu Llwybr ar y wefan.

Dwedwch wrthym lle'r ydych. Rhowch enw lle i chwilio ac yna defnyddiwch y map i leoli'ch lleoliad yn fanwl. Defnyddiwch olwyn eich llygoden i glosio i mewn/allan a cliciwch ddwywaith i ollwng y pin ar eich lleoliad.

Ychwanegu'r eitem at Gasgliad neu Grŵp

Os ydych wedi creu Casgliad neu Grŵp yn barod, fe allwch ychwanegu'r eitem yn gyflym a hawdd cyn iddi gael ei chymedroli drwy fynd at 'Categorioidio'r Eitem Hon'.

Golygu Eitem - Categorioidio'r Eitem hon

Ychwanegu at Casgliad:

| 1 items selected | <u>Remove all</u> | <input type="text"/> | <u>Add all</u> |
|-----------------------------|--------------------------|----------------------|-----------------------|
| Lluniau o Gastell Dinefwr"> | | | |

Dewiswch y casgliad o'r golofn dde gyda chlic-ddwbl er mwyn i'r eitem gael ei ychwanegu i'r casgliad.

ENGHRAIFFT

Dyma enghraifft o'r math o wybodaeth y gellid ychwanegu at eitem

| |
|---|
| Teitl |
| Teitl ystyrllon sy'n dweud wrth y defnyddiwr beth yw'r eitem. Dylai ateb y cwestiynau pwy, ble, beth a phryd os yn bosib. NODER: Mae'r wefan yn cymryd y teitl o'ch enw ffeil yn awtomatig – bydd angen i chi ei NEWID |
| Disgrifiad |
| Dylai hwn fod yn unrhyw wybodaeth cyd-destun neu gefndir i'w hychwanegu i'r eitem. Gallai hefyd fod yn adysgrif o destun sy'n anodd ei ddarllen ayyb. Gorau po fwyaf o wybodaeth sy'n cael ei ychwanegu yma. |
| Tagiau |
| Geiriau sy'n berthnasol i'r eitem fydd yn helpu ei ddarganfod mewn chwiliad. |

The screenshot shows a snippet of a Welsh Wikipedia article. At the top, there is a blue header: "Diolch am ychwanegu'ch eitem. Pe hoffech ychwanegu neu olygu gwybodaeth cyn ei gyflwyno ar gyfer cymedroli, gwnewch hynny nawr." Below this, the title is "(Cymraeg) Protest Gyntaf Cymdeithas yr Iaith, 7 Ionawr 1963". The main text under "Disgrifiad" is "(Cymraeg) Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Awst 1962 yn ystod Ysgol Haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais. Cynhaliodd y gymdeithas ei phrotect swyddogol gyntaf ar 2 Chwefror 1963 yn Aberystwyth. Eisteddodd tua 40 o aelodau a chefnogwyr ynghanol y ffordd ar Bont Trefechan, gan rwystro'r drafnidiaeth am hanner awr." Below the text, there are tags: "(Cymraeg) Iaith, cymdeithas, protest, Aberystwyth, Trefechan". On the right side, there are three grey buttons with a plus sign and the text "DWYIEITHOG". A purple arrow points from a text box to the top button, and another purple arrow points from the text box to the bottom button.

Diolch am ychwanegu'ch eitem. Pe hoffech ychwanegu neu olygu gwybodaeth cyn ei gyflwyno ar gyfer cymedroli, gwnewch hynny nawr.

(Cymraeg) Protest Gyntaf Cymdeithas yr Iaith, 7 Ionawr 1963

Disgrifiad
(Cymraeg) Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Awst 1962 yn ystod Ysgol Haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais. Cynhaliodd y gymdeithas ei phrotect swyddogol gyntaf ar 2 Chwefror 1963 yn Aberystwyth. Eisteddodd tua 40 o aelodau a chefnogwyr ynghanol y ffordd ar Bont Trefechan, gan rwystro'r drafnidiaeth am hanner awr.

Tagiau
(Cymraeg) Iaith, cymdeithas, protest, Aberystwyth, Trefechan

+ DWYIEITHOG

+ DWYIEITHOG

+ DWYIEITHOG

Gellid ychwanegu gwybodaeth ddwyieithog trwy agor y tabiau yma

Llwytho Cynnwys i wefan Casgliad y Werin Cymru: Llwytho Swmp

Os ydych yn meddwl am gyfrannu nifer fawr o eitemau at wefan Casgliad y Werin Cymru, efallai gallwn helpu.

Os ydych wedi digido'r eitemau'n barod, cysylltwch â Culturenet Cymru i drafod sut allent gael eu llwytho mewn swmp. Fe allai gael ei wneud naill ai drwy ddefnyddio allwedd API neu drwy gysylltydd a ddatblygwyd gan CNC. Fe fedrwn drafod yr opsiynau gyda chi neu'ch adran TG neu arbenigydd er mwyn dod o hyd i ddatrysiad effeithiol i drosglwyddo'r cynnwys.

Os nad ydych wedi digido'ch eitemau, yna cysylltwch â ni i drafod sut i gynllunio'ch digido fel y gall y cynnwys gael ei gyfrannu'n gyflym ac effeithiol. Rydym wedi creu taenlen batrymlun sy'n cynnwys yr holl feysydd angenrheidiol ar gyfer llwytho cynnwys i'r wefan. Wrth ei defnyddio yn ystod y broses ddigido mi fydd yn galluogi ychwanegu'ch cynnwys at wefan Casgliad y Werin Cymru yn gyflym a hawdd.

Cysylltwch am gopi o'r daenlen a chyngor ar sut i fanteisio ar y gwasanaeth hwn. E-bostiwch digido@culturenetcymru.com am ragor o wybodaeth.

Buddion Pellach

Yn ogystal â chynnig llwyfan am ddim ar gyfer eich cynnwys, mae buddion eraill pan gydweithiwrch gyda gwefan Casgliad y Werin Cymru:

1. Os ydych yn ystorfa, grŵp cymunedol neu gymdeithas, fe fedrwrch gael proffil cyhoeddus sy'n dod â'ch holl gynnwys at ei gilydd ar y safle ac sydd hefyd yn eich galluogi i rannu gwybodaeth amdanoch – lleoliad, amseroedd agor, manylion cyswllt ac ati. Gwefan fechan ar wahân o fewn Casgliad y Werin Cymru.

LGC NLW Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales

Account type: Authoritative source
Date joined: 17/02/10
About
Website: www.llgc.org.uk
Un o lyfrgelloedd mawr y byd | One of the great libraries of the world

Visiting Us

Opening Hours:
Monday - Friday 9:30 - 18:00
Saturday 9:30 - 17:00

The National Library of Wales
Aberystwyth
Ceredigion
Wales
SY23 3BU

Parking, Cafe, Shop, Disabled Access, Weekly Tours.

2. Mae Casgliad y Werin Cymru hefyd yn gallu rhoi ystadegau ynglŷn â'ch cynnwys ar y wefan i chi; faint o drawiadau mae eitem wedi'i chael neu pa mor aml y mae wedi cael ei hailddefnyddio mewn casgliad neu mewn stori. Fe all hyn fod yn werthfawr wrth adrodd ar effeithiolrwydd cynnwys ar-lein i reolwyr neu arianwyr.
3. Fe allai wella'ch casgliadau. Mae Casgliad y Werin Cymru'n awyddus i gynyddu rhyngweithio â'r wefan a'i chynnwys. Drwy ddatblygu gweithredu i annog cyfrannu gan y cyhoedd, mi all fod yn bosibl i ddod o hyd i eitemau newydd neu ddarganfod mwy o wybodaeth am eitemau sydd eisoes yn bodoli – y pwy, ble neu phaham nad ydych erioed wedi llwyddo ateb.

A oes unrhyw gymorth ariannol ar gael?

Gall arian grant CyMAL gael ei ddefnyddio gan gyrff o fewn y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd sydd eisiau creu cynnwys ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. Mae'r grantiau yma wedi eu dylunio i annog creu cynnwys a'r defnydd o wirfoddolwyr o fewn y sector. Mae'r wybodaeth diweddaraf am gynlluniau grant CyMAL ar y wefan.

Hefyd, fe all CyWC gynnig i'r rheini sy'n ceisio am grantiau oddi wrth e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y llwyfan delfrydol ar gyfer cyhoeddi'u cynnwys, sydd hefyd yn osgoi'r angen i greu gwefan newydd. Mae CyWC yn cynnig sefydlogrwydd a gwarant tymor hirach y bydd yr isadeiledd yn parhau am sawl blwyddyn i ddod.

Os ydych yn paratoi cais am arian, cysylltwch â ni i weld sut gallai Casgliad y Werin Cymru helpu'ch prosiect.

Canllawiau Digidio Culturenet Cymru

Os hoffech gopi o'r Canllawiau Digidio a gyfeiriwyd atynt yn y ddogfen hon, plis cysylltwch â digido@culturenetcymru.com

Mae copïau dwyieithog ar gael ar gyfer meddalwedd Photoshop CS, Photoshop Elements 7.0 a GNU Image Manipulation Program (GIMP).

Mae hefyd posib benthyca offer ar gyfer creu cynnwys i wefan Casgliad y Werin Cymru. Cysylltwch â Culturenet Cymru am fwy o wybodaeth.